# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-01-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod:10 Ionawr 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-31-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau wedi codi o'r cyfarfod blaenorol, awgrymodd y Cadeirydd symud yn syth ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1199 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2006

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau fod yna bwynt ychwanegol mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn y gellir ei gywiro wrth argraffu: yn y fersiwn Gymraeg, dylai'r geiriau sydd yn cyflwyno’r diwygiad yn ymwneud ag "a microwave antenna" yn rheoliad 4(2)(a) fod yn Gymraeg ac nid yn Saesneg. Cytunodd yr Aelodau y dylid cyflwyno’r adroddiad ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol, ac y gellid gwneud y cywiriad yma wrth argraffu.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1192 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

### LC1193 - Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) (Diwygio) 2006

### LC1197 - Rheoliadau Gwastraff (Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref) (Cymru) 2006

### LC1198 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) 2006

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 17 Ionawr 2006.